**Cytundeb Benthyciad i brynu Capel Tabernacl fel Hwb Cymunedol**

**Isafswm o £1,000 gan dalu llog o 4% y flwyddyn (ar ôl prynu'r capel)**

**CYTUNDEB BENTHYCIAD - www.hwb-aberteifi.org**

Gwneir **Y CYTUNDEB HWN** ar ____________________________diwrnod ____________20________

**RHWNG:**

(1) (Enw)______________________________________________ [Y "**DARPARWR BENTHYCIAD**"]

(Enw'r cyfrif: __________________________________________________

Rhif y cyfrif: ___________________________ Cod didoli: ______________________;

At ddibenion taliadau llog misol)

**A**

(2) **4CG Cymru Cyf.** [Y "**BENTHYCIWR**"]

(Enw'r cyfrif: **4CG Cymru Ltd**

Rhif y cyfrif: **19418568** Cod didoli: **30 - 71 - 89**

At ddibenion taliad llog benthyciad trwy BACS)



Cefnogir gan PLANED – i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Cris Tomos PLANED 01834 860965 / 07974 099738

**CYTUNIR TRWY HYN** fel a ganlyn:

1. **Benthyciad.** Yn ddarostyngedig ac yn unol â'r cytundeb hwn, ei delerau, ei amodau a'i gyfamodau, mae'r Darparwr Benthyciad yn cytuno i roi benthyciad i'r Benthyciwr ar

(dyddiad)____________________________________ ("**Dyddiad y Benthyciad**") y swm o

(cyfanswm mewn geiriau) ____________________________ mil o bunnoedd*

(cyfanswm mewn rhifau) £ _____________________ (y "**Benthyciad**")

*. Isafswm y benthyciad Cymheiriaid yw £1,000, ac mae'n cynyddu mewn cynyddrannau o £1000.

2. **Nodyn.** Ceir tystiolaeth o'r benthyciad drwy Nodyn yn y ffurflen atodedig fel **Arddangosiad A** y cytundeb hwn (y "**Nodyn**") a gyflanwir gan Benthyciwr ac a gyflwynir i'r Darparwr Benthyciad ar Ddyddiad y Benthyciad.

3. **Llog.** Pan gaiff y capel ei brynu, bydd y taliad dyddiad llog yn dechrau. Mae'r ddau barti wedi cytuno y bydd y Benthyciad yn dwyn cyfradd llog flynyddol o 4%. Telir y llog yn flynyddol trwy Archeb Sefydlog ar 13 Ionawr fel Calennig. (telir rhan o'r gyfran ar gyfer y flwyddyn 1af. Ar y Dydd Llun sy'n dilyn 13 Ionawr pan fydd 13 Ionawr yn ystod y penwythnos).

4. **Ad-dalu.** Bydd ad-dalu elfen gyfalaf y benthyciad yn unol â thelerau'r Nodyn. Gellir talu'r Nodyn, unrhyw bryd, ac o bryd i'w gilydd, neu gellir ei dalu ymlaen llaw yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb bremiwm neu gosb heblaw y bydd unrhyw daliad rhannol yn lleiafswm o £500.

5. **Sicrwydd.** O bryd i'w gilydd gall y Darparwr Benthyciad fynnu a bydd y Benthyciwr yn cyflawni dogfennau benthyciad ychwanegol sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn perffeithio buddiannau sicrwydd y Darparwr Benthyciad.

6. **Sylwadau a Gwarantau.** Mae'r Benthyciwr yn mynegi ac yn gwarantu: (i) bod cyflawni, cyflwyno a pherfformiad y Cytundeb hwn a'r Nodyn wedi'u hawdurdodi'n gywir ac yn briodol; (ii) na fydd unrhyw newidiadau niweidiol sylweddol yng nghyflwr ariannol y Benthyciwr ar adeg Dyddiad y Benthyciad; (iii)nid oes unrhyw golledion sylweddol, sydd heb eu gwireddu neu a ragwelir o unrhyw ymrwymiad presennol gan y Benthyciwr; (iv)y bydd y Benthyciwr yn rhoi gwybod i'r Darparwr Benthyciad am newidiadau niweidiol sylweddol a allai ddigwydd unrhyw bryd cyn Dyddiad y Benthyciad ac ar ôl hynny hyd at ddyddiad y taliad terfynol. Mae'r Benthyciwr yn mynegi ac yn gwarantu y bydd y fath fynegiadau a gwarantau yn cael eu hystyried fel mynegiadau a gwarantau parhaus yn ystod oes gyfan y Cytundeb hwn.

7. **Diffygdalu.** Bydd y Benthyciwr yn diffygdalu: (i) os na wneir unrhyw daliad llog sy'n ddyledus o dan hyn o fewn 15 diwrnod i'r dyddiad y mae'n ddyledus, (ii) os digwydd bod aseiniad gan y Benthyciwr er budd y credydwyr; (iii) wrth ffeilio unrhyw betisiwn methdaliad gwirfoddol neu anwirfoddol gan neu yn erbyn y Benthyciwr; neu (iv) os yw'r Benthyciwr wedi torri unrhyw fynegiad neu warant a nodir yn y Cytundeb hwn.

8. **Cyfraith Llywodraethu.** Caiff y Cytundeb hwn a'r Nodyn hwn eu llywodraethu, eu dehongli a'u gorfodi yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r ddau barti yn cytuno i fod yn ddarostyngedig i Lysoedd Cymru a Lloegr yn unig.

**WRTH DYSTIO I HYN** mae'r partïon wedi llofnodi'r Cytundeb hwn, y diwrnod a'r flwyddyn sydd wedi'u hysgrifennu uchod.

Llofnodwyd gan y **Benthyciwr**: ________________________________________

Ym mhresenoldeb (llofnod y tyst): ______________________________________

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad: __________________________________________________________

______________________________________________________________________

Galwedigaeth: _______________________________________________________

Llofnodwyd gan y **Darparwr Benthyciad:** ______________________________

Ym mhresenoldeb (llofnod y tyst): ______________________________________

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad: __________________________________________________________

______________________________________________________________________

Galwedigaeth: _______________________________________________________

## ARDDANGOSIAD A - NODYN Y BENTHYCIAD

Gwneir **Y WEITHRED HON** ar ______________________________diwrnod _____________20________

GAN 4CG Cymru Ltd o Pwllhai, Cardigan, Ceredigion SA43 1DB [y "Sawl sy'n derbyn y benthyciad"].

OHERWYDD: Mae gan y Benthyciwr ddyled i

(___________________________________________) ("y Darparwr Benthyciad") o'r swm

£________________________.

**BELLACH MAE'R WEITHRED HON YN TYSTIO** fel a ganlyn:

1. Mae'r Benthyciwr yn addo talu i orchymyn y Darparwr Benthyciad y swm o

£___________________

(cyfanswm mewn geiriau):

2. Caiff y Nodyn hwn ei dalu fel a ganlyn:

(i) Cyfradd llog flynyddol sefydlog o 4%. Pan gaiff y cae newydd ei brynu, bydd y dyddiad talu llog yn dechrau. Telir y llog yn flynyddol trwy Archeb Sefydlog ar 13 Ionawr fel Calennig. (Telir rhan o'r gyfran ar gyfer y flwyddyn 1af. Ar y Dydd Llun sy'n dilyn 13 Ionawr pan fydd 13 Ionawr yn ystod y penwythnos).

(ii) Caiff y Benthyciad Cyfalaf ei ad-dalu i'r Darparwr Benthyciad ar ôl tymor 36 mis a amserlennir ac ar yr adeg honno gellir ei ail-negodi neu ei ymestyn trwy gydsyniad y ddau barti. Mae'n rhaid i'r Darparwr Benthyciad roi o leiaf 6 mis o rybudd o ad-dalu, os bydd gofyn am ad-dalu cyn y telerau o 36 mis a gytunwyd.

3. Gellir ad-dalu'r Nodyn hwn ymlaen llaw heb gosb yn ddarostyngedog i'r gofyniad taliad lleiaf a nodir yng Nghymal 4 y Cytundeb.

4. Bydd y nodyn hwn yn ddyledus ac yn daladwy ar alwad gan unrhyw ddeiliad ohono pe bai'r Benthyciwr yn diffygdalu unrhyw daliad llog y tu hwnt i 15 diwrnod i'r diwrnod pan oedd yn ddyledus.

**WRTH DYSTIO I HYN** mae'r Benthyciwr wedi cyflawni'r Weithred hon ar y diwrnod a'r flwyddyn a ysgrifennwyd gyntaf uchod.

[Llofnod y Benthyciwr]:_______________________________________________

Ym mhresenoldeb (tyst)

Enw: _______________________________________________

Cyfeiriad: _______________________________________________

_______________________________________________

Galwedigaeth: _______________________________________________

Llofnod y Tyst: _______________________________________________

**Dychwelwch os gwelwch yn dda y cytundeb yma i: Prosiect Hwb Aberteifi, 4CG Cymru Cyf, Pwllhai, Aberteifi, Ceredigion. SA43 1DB neu ebostio hwbaberteifi@gmail.com**



Cefnogir gan PLANED – i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Cris Tomos PLANED 01834 860965 / 07974 099738